Mae angen cydsyniad pan fo Bil yn effeithio ar refeniw uchelfr faint, preifat neu etifeddol y Frenhines neu Ddug Cernyw. (Mae hwn yn fater ar wahân i'r cwestiwn a yw Bil yn effeithio ar y Goron fel sefydliad). Nid yw'r angen am gydsyniad gan Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol, ac felly ni ellid cyfeirio Bil at y Goruchaf Lys oherwydd diffyg y cydsyniad hwnnw; fodd bynnag, ni ellir pasio'r Bil hyd nes bod unrhyw gydsyniad angenrheidiol wedi'i ddynodi.

Mae p'un a oes angen cydsyniad ar gyfer y Bil hwn yn dibynnu ar p'un a allai trafodiad tir fel y'i diffinnir yn y Bil effeithio ar refeniw uchelfr faint, preifat neu etifeddol y Frenhines neu Ddug Cernyw. Efallai y bydd y pwyllgor am archwilio gydag Ysgrifennydd y Cabinet a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad o'r fath.

Dyma grynodeb byr o'r materion. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar y rhain, neu unrhyw un o'r profion cymhwysedd eraill sy'n gymwys i'r Bil, bydd y swyddogion sy'n cefnogi eich gwaith yn fwy na pharod i helpu.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Prif Weinidog Cymru a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd





Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Medi 2016

Annwyl Huw,

Ymchwiliad i Fil Cymru Llywodraeth y DU

Ysgrifennaf yn dilyn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 4 Gorffennaf, ynghylch Bil Cymru Llywodraeth y DU. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedais y byddwn yn tynnu sylw'r Pwyllgor at o leiaf rhai o'r materion a gedwir yn ôl yn yr Atodlen 7A newydd sy'n achosi pryder o hyd.

Er ei bod yn siomedig gweld nad yw'r rhestr o faterion a gedwir yn ôl ar y cam hwn wedi'i chwtogi'n sylweddol o'r hyn a welwyd yn y drafft cychwynnol o'r Bil, rwy'n hyderus bod lle i weld cynnydd pellach wrth i'r Bil symud drwy Dŷ'r Arglwyddi. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i gael trafodaethau manwl gyda'u swyddogion cyfatebol yn Swyddfa Cymru, ac rwy'n disgwyl gweld Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliannau o ganlyniad i'r trafodaethau hynny, wrth i'r Arglwyddi ystyried.

Dylwn hefyd bwysleisio bod hyn yn golygu mwy na dim ond lleihau nifer y materion a gedwir yn ôl ar y rhestr yn Atodlen 7A. Bydd hefyd yn bwysig i rai o'r materion hynny gael eu hailddrafftio, neu ychwanegu Eithriadau, fel bod ystod materion penodol a gedwir yn ôl yn fwy cyfyngedig, a bod mwy o ofod yn cael ei greu i'r Cynulliad ddeddfu.

Dŵr a Charthffosiaeth (Materion 90 a 91)

Mae Llywodraeth Cymru am weld gweithredu argymhellion Comisiwn Silk i ddatganoli pwerau dŵr a charthffosiaeth, gan alinio ffin y cymhwysedd â'r ffin genedlaethol; trosglwyddo pwerau ar garthffosiaeth a thrwyddedu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth; sefydlu protocol rhynglywodraethol mewn perthynas â materion trawsffiniol; a diddymu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn perthynas â dŵr. Roedd yr argymhellion hyn yn destun consensws mewn egwyddor yn y Papur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn amodol ar waith pellach ynghylch y goblygiadau ymarferol. Cyflawnwyd y gwaith hwn fel rhan o waith y Bwrdd Rhaglen Gydlywodraethol ar Ddatganoli Dŵr a Charthffosiaeth, ac mewn ymgynghoriad gyda'r diwydiant dŵr a'r rheoleiddwyr, ac ni allaf weld unrhyw reswm dros beidio â gweithredu'r set hon o newidiadau yn y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 44
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan ystyried pwysigrwydd dŵr yn y setliad, rwy'n credu ei bod yn hanfodol i ni sicrhau'r pecyn hwn yn llawn drwy'r Bil, a bod parhau i gadw materion yn ôl mewn perthynas â dŵr a charthffosiaeth yn groes i'r graen ac yn ddi-weld. Rwy'n credu y dylai Llywodraeth y DU gymryd y cyfle y mae Bil Cymru yn ei gynnig i anrhydeddu ei hymrwymadau drwy symud ymlaen â'r newidiadau hyn, yn hytrach na'u gadael nes rhyw gyfle arall i ddeddfu yn y dyfodol.

Cynigiais welliannau i nifer o faterion a gedwir yn ôl yn ystod y camau drwy Dŷ'r Cyffredin. Roedd yn drueni nad oedd y rheiny'n llwyddiannus, ond rwy'n gobeithio eu gweld yn cael eu cyflwyno eto yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Betio, Hapchwarae a Loteriau (Mater 57)

Cyflwynwyd gwelliant i drosglwyddo cymhwysedd i reoleiddio nifer y Peiriannau Hapchwarae Ods Sefydlog. Digwyddodd hyn yn sgil penderfyniad y Cynulliad i fabwysiadu cynnig o'r meinciau cefn llynedd, gyda chefnogaeth y pedair plaid oedd yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad ar y pryd, yn tynnu sylw at y problemau cymdeithasol oedd yn codi o'r cynnydd mewn hapchwarae, ac yn gofyn am ystyried datganoli cyfrifoldebau ar y mater hwn er mwyn i'r Cynulliad fedru rhoi sylw iddo'n effeithiol. Byddai'r ddarpariaeth hon yn cyfateb i adran 52 Deddf yr Alban 2016, sy'n trosglwyddo cymhwysedd i Senedd yr Alban mewn perthynas â Pheiriannau Hapchwarae Ods Sefydlog, felly mae'n welliant rhesymol i ddarparu setliad cyfatebol yn y maes hwn i Gymru.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (Mater 184)

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw at y safbwynt a gyflwynwyd i Gomisiwn Silk, safbwynt yr oedd y Comisiwn yn cytuno ag ef, y byddai'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ychwanegiad manteisiol i bwerau'r Cynulliad. Mae cysylltiad annatod gyda'r gwaith o gyflawni ein cyfrifoldebau presennol dros gynllunio, ac nid oes unrhyw achos wedi'i wneud dros gadw'r mater hwn yn ôl o fewn Bil Cymru.

Trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, a lluniaeth gyda'r hwyr (Materion 55 a 56)

Byddai cymhwysedd o ran trwyddedu alcohol yn gyson â chyfrifoldebau'r Cynulliad dros iechyd, ac yn caniatáu iddo roi sylw mwy effeithiol i un o brif achosion marwolaethau a salwch y mae modd eu hosgoi yma yng Nghymru. Cydnabyddir yn eang mai polisïau sy'n rheoli'r ffordd y mae alcohol yn cael ei werthu a'i chyflenwi yw'r dulliau mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r niwed sy'n cael ei greu gan alcohol. Mae cadw'r materion hyn yn ôl yn gosod cyfyngiadau diangen ac amhriodol ar waith i fynd i'r afael ag argaeledd alcohol yng Nghymru. Byddai cael y pwerau angenrheidiol yn galluogi'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i gymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Mae'r pwerau hyn wedi'u datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac fe ddylid eu datganoli yn yr un modd yng Nghymru.

Ar lefel swyddogol, mae trafodaethau'n parhau ar nifer o feysydd eraill lle rwyf o'r farn y dylid dileu neu gyfyngu ar y materion a gedwir yn ôl drwy well drafftio, er enghraifft Tribiwnlysoedd (Mater 7), Pwerau Brys (Mater 45), Gwresogi ac Oeri (Mater 99), Arbed Ynni (Mater 100), Prynu Gorfodol (Mater 185) a Rheoliadau Adeiladu (Mater 186).

Mae meysydd eraill, er enghraifft cadw mater cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn ôl (Mater 139), lle rwyf wedi cynnig eithriad mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, ac mae hyn eto yn fater y gall yr Arglwyddi o bosib ddychwelyd ato. Mae'n

werth nodi yn y cyd-destun hwn bod Llywodraeth y DU wedi parhau i ddefnyddio'r dechneg ddrafftio sy'n rhestru pynciau fel ffordd o ddisgrifio materion i'w cadw yn ôl, er fy mod wedi pwysu arnynt i osgoi gwneud hynny ac i ddefnyddio diffiniadau mwy pendant a phenodol yn lle hynny. Mae Mater 139 yn enghraifft eithriadol o hyn. Nid yw'r brys o ran amserlen craffu ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, ac o bosib yn Nhŷ'r Arglwyddi, wedi'n helpu yn hyn o beth.

Rwy'n parhau i bwysu ynghylch yr holl faterion hyn, ac fe fyddaf yn adolygu'r cynnydd ar lefel swyddogol cyn i'r Arglwyddi ddechrau ystyried.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

14 Gorffennaf 2016

Annwyl Huw

Ystyried Goblygiadau Ariannol Bil Cymru

Yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2016, bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried goblygiadau ariannol Bil Cymru a llythyr y Llywydd at holl Aelodau Seneddol Cymru ar 5 Gorffennaf yn cynnig cyfres o welliannau i'r Bil.

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil a oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, yn arbennig *Cymal 12 ar reolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio*. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod wyth prif fater yn bodoli mewn perthynas â'r darpariaethau ariannol, ac er gwybodaeth atodaf y rhain fel Atodiad A.

Buom yn trafod dileu gofyniad i gynnal refferendwm i ddatganoli cyfraddau treth incwm yng Nghymru. Byddai gwelliant arfaethedig y Llywydd yn golygu y byddai pŵer y Trysorlys yn amodol ar gydsyniad drwy benderfyniad gan y Cynulliad. Trafododd y Pwyllgor a ddylai'r penderfyniad hwn fod yn destun uwch-fwyafrif a chredwn fod hwn yn faes pwysig y dylai eich Pwyllgor ei ystyried yn ogystal â'r defnydd o uwch-fwyafrif ar gyfer materion eraill o bwys arwyddocaol.

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yn y darpariaethau ar bwerau benthyca sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae Deddf Cymru 2014 yn rhoi pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf. O 2018 ymlaen, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu benthyg hyd at £500m i fuddsoddi mewn meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli. Mae darpariaeth yn Neddf 2014 ar gyfer benthyca hyd at £500m i gefnogi gwariant refeniw i helpu i reoli amrywiadau cyllidebol a allai ddigwydd o ganlyniad i ddatganoli trethi.



Roedd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd wedi codi'r mater o bwerau benthyca a sut mae gan y Llywodraeth lai o allu benthyca nag awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddem yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei ailystyried yn y Bil hwn.

Yn anffodus, oherwydd yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil yn Nhŷ 'r Cyffredin, teimlai'r Pwyllgor fod ei waith craffu wedi cael ei gwtogi a'n gallu i ddylanwadu ar hyn y Bil wedi bod yn gyfyngedig, ond rydym yn gobeithio y bydd ein hystyriaeth yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac rydym yn edrych ymlaen at ganlyniad ymchwiliad eich Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Simon Thomas'.

Simon Thomas AC
Cadeirydd



Cymal 12 Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio

Diogelwch ychwanegol ynghylch awdurdodi a defnyddio adnoddau

Er bod Bil Cymru yn rhoi diogelwch o ran paratoi cyfrifon priodol a threfniadau archwilio, nid yw'n darparu:

- mai dim ond yn unol â deddfwriaeth neu awdurdodiad gan y Cynulliad y gellir rhoi arian o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF)
- bod defnyddio adnoddau o'r fath yn gyfyngedig i'r diben a gafodd ei awdurdodi.

Darpariaeth ar gyfer atebolrwydd cyrff a ariennir yn anuniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru

Nid oes unrhyw ddarpariaeth:

- bod deddfwriaeth ddilynol yng Nghymru yn gallu gwneud darpariaeth i bersonau, y mae eu cyllid yn deillio o Gronfa Gyfunol Cymru, ond nad yw'n cael ei dynnu i lawr yn uniongyrchol ohono (ee grantiau), fod yn atebol am yr arian hwnnw.

Er bod deddfwriaeth gyfredol San Steffan a Chymru yn darparu ar gyfer cyrff fel Comisiynwyr, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB), cyrff y GIG a chyrff Llywodraeth Leol, gallai diffyg darpariaeth achosi rhai anawsterau pe bai'r Cynulliad yn dymuno deddfu ar faterion o'r fath a dylid ei chynnwys i gryfhau sefyllfa'r Cynulliad.

Atodlen 7B Cyfyngiadau Cyffredinol

Cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mae Paragraff 7(5)(b) o Atodlen 7B yn golygu y bydd angen cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y Cynulliad ar gyfer darpariaethau yn neddfwriaeth Cymru sy'n atodol neu'n ganlyniadol i ddarpariaethau sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol neu drethi datganoledig. Nid yw'n glir pam fod angen cydsyniad gan na fydd hyn yn cael unrhyw effaith y tu hwnt i weithdrefnau ariannol y Cynulliad, felly dylid ei ddileu.

Mae Paragraff 7(6) o Atodlen 7B yn diffinio gweithdrefnau cyllidebol. Mae angen eglurhad ynghylch cynnwys y paragraff hwn.

Cyfansoddiad y Pwyllgor sy'n goruchwyllo'r Archwilydd Cyffredinol

Mae Paragraff 5(6) o Atodlen 7B yn caniatáu ar gyfer rhoi'r swyddogaethau i oruchwyllo'r Archwilydd Cyffredinol i un o Bwyllgorau'r Cynulliad (y Pwyllgor Cyllid



ar hyn o bryd). Byddai Pwyllgor o'r fath yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau o ran cyfansoddiad ag sydd gan y Pwyllgor Archwilio (PAC) ar hyn o bryd yn adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

O gofio y bydd y Bil yn galluogi'r Cynulliad i addasu adran 30 mae'r darpariaethau hyn yn Atodlen 7B yn cyfyngu yn ddiangen a dylid eu dileu.

Cymhwysedd i ychwanegu at y rhestr o 'bersonau perthnasol' - taliadau i mewn ac allan o Gronfa Gyfunol Cymru

Mae Paragraff 7(7) o Atodlen 7 yn cynnwys rhestr o "bersonau perthnasol" sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru. Dylai'r Cynulliad fod yn gallu ychwanegu at y rhestr hon, ond nid dileu unrhyw beth ohoni, er mwyn galluogi corff sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru i fod yn annibynnol yn ariannol hefyd lle bo'n briodol. Byddai angen diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy Fil Cymru er mwyn gwneud hynny. Yn yr un modd, dylai'r Cynulliad fod yn gallu deddfu mewn perthynas â phersonau sy'n atebol i wneud y taliad i mewn i'r Gronfa.

Gwelliannau a awgrymwyd i gymalau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy Fil Cymru

Cyllideb ddeddfwriaethol

Mae Deddf Cymru 2014 yn caniatáu i'r Cynulliad symud i gyllideb ddeddfwriaethol. Mae Adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i newid ei drefniadau cyllidebol yn y dyfodol heb yr angen am ddiwygiadau pellach drwy Ddeddf Seneddol. O ganlyniad, ni fyddai angen penderfyniad cyllidebol ar gyllideb ddeddfwriaethol, ac felly dylid dileu 'resolution' o Adran 124 a dylid cyflwyno gwelliannau canlyniadol priodol i adrannau 125 i 128.

Archwiliadau gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

Mae Adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi mynediad i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru at ddibenion archwilio gan Senedd y DU. Nid yw hyn wedi cael ei ddefnyddio hyd yn hyn, ac nid oes angen darpariaeth o'r fath yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon.

O ystyried bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn endidau ar wahân, gellid dadlau nad oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru bellach ac y dylai gael ei hepgor a chyflwyno gwelliannau canlyniadol priodol i Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983.



Deddf Llywodraeth Cymru 1998 - cymalau sydd heb eu datrys

Er bod Cymal 12 o Fil Cymru yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad ddeddfu ar drefniadau archwilio, byddai'r Cynulliad yn dal i fethu â deddfu ar bwerau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau gwerth am arian. Ni ellir diwygio Adrannau 145 a 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer bwerau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau gwerth am arian, am eu bod wedi'u diogelu ar hyn o bryd o dan Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae hyn yn cyfyngu'r Cynulliad rhag creu set safonol o ddarpariaethau archwilio gwerth am arian ar draws yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig. Er mwyn sicrhau bod posibilrwydd cael darpariaethau cyson ar gyfer archwiliadau gwerth am arian, dylai fod yn bosibl diwygio Adrannau 145 a 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.



Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

21 Medi 2016

Annwyl Huw,

Craffu ar Fil Cymru Llywodraeth y DU

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf 2016 yn gwahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i fynegi barn am Fil Cymru. Trafododd y Pwyllgor y Bil, yn enwedig effaith y cymalau cadw ar ei gylch gorchwyl, yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2016, a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i roi gwybod beth oedd barn y Pwyllgor.

Cyffredinol

Fel y Pwyllgor a'n rhagflaenodd (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad), rydym yn cefnogi'r egwyddor o symud at fodel cadw pwerau. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw dull Llywodraeth y DU o weithredu, o ran y profion cymhwysedd yn ogystal â'r profion newydd a gyflwynwyd, a nifer a chwmpas y cymalau cadw, yn gwneud braidd ddim i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r model presennol nac i wella setliad cyffredinol Cymru.

Hwn fydd y pedwerydd tro y bydd y Senedd wedi deddfu i wneud newidiadau sylweddol yn setliad datganoli Cymru mewn llai nag ugain mlynedd. Yr oeddem wedi disgwyl y byddai'r newidiadau cyfansoddiadol y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn sicrhau setliad parhaol a chadarn i Gymru. Fodd bynnag, os caiff y Bil ei basio ar ei ffurf bresennol, rydym yn pryderu na chaiff setliad o'r fath ei wireddu ac y bydd angen rhagor o ddeddfwriaeth ar y mater hwn cyn bo hir.

Cymalau Cadw

Rydym yn cydnabod mai un o'r beirniadaethau mwyaf o'r Bil Cymru drafft oedd nifer y cymalau cadw a'r ffaith nad oedd sail resymegol glir ar gyfer cynnwys y cymalau hynny. Fel y cyfryw, rydym yn siomedig bod y cymalau cadw yn y Bil sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor heb newid



braidd ddim ar ôl craffu ar y Bil drafft. Fel ein rhagflaenydd, rydym yn pryderu y gallai'r cymalau cadw hyn leihau cymhwysedd y Cynulliad mewn rhai achosion, ac atal y Cynulliad rhag deddfu'n ddilyffethair yn y meysydd y gall eisoes ddeddfu ynddynt. Mae'n gwbl annerbyniol y gallai'r Cynulliad fod mewn sefyllfa, o dan y setliad newydd, lle na all basio Deddf y gellid bod wedi'i phasio o dan y model rhoi pwerau, na diwygio Deddf o'r fath.

Gan droi at y materion penodol a gedwir yn ôl, mae gennym bryderon difrifol am effaith mater cadw 37 (*atal, canfod ac ymchwilio i droseddau*) ar allu'r Cynulliad yn y dyfodol i ddeddfu mewn meysydd polisi allweddol, megis atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Pan gyflwynwyd y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (a wnaed yn ddeddf ac a ailenwyd maes o law yn Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)) i'r Cynulliad, bu llawer o sôn bod Cymru yn arwain y ffordd yn y DU yn y maes hwn. Mae'n resyn o'r mwyaf felly ei bod yn debygol y bydd deddfwriaeth o'r fath y tu allan i gymhwysedd o dan y setliad newydd. Efallai y gwyddoch fod y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf ar hyn o bryd. Pe byddai'r Pwyllgor yn awyddus i argymhell newidiadau deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru, byddai'n rhaid iddo ystyried unrhyw newidiadau y bydd Bil Cymru wedi'u gwneud i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

At hynny, rydym yn pryderu am effaith mater cadw 37 ar swyddogaethau llywodraeth leol, ac yn nodi y gallai hyn effeithio ar allu'r Cynulliad i roi i awdurdodau lleol ddyletswyddau a phwerau ymchwilio newydd i droseddau rheoleiddio. I raddau tebyg, rydym yn pryderu y gallai mater cadw 41 (*ymddygiad gwrthgymdeithasol*) atal y Cynulliad rhag grymuso awdurdodau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghraifft yng nghyd-destun tai.

Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer datganoli plismona i'r Cynulliad er mwyn gwneud y sefyllfa yng Nghymru yn debyg i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, sydd wedi cael pwerau dros blismona ers tro. Nodwn benderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i uno rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ym Manceinion gyda rôl y maer sydd newydd ei ethol yn yr ardal honno. Drwy wneud hyn, byddai gan y Maer hwnnw bwerau ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd gan Gymru yn y maes polisi hwn. Felly, mae'n fwy o syndod byth bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cadw'r pwerau dros blismona yn ôl yn achos Cymru.

Roedd y Bil drafft blaenorol yn cynnwys yr hyn a oedd ar y pryd yn fater cadw 171 (*diogelwch tân*), a oedd yn cynnwys eithriad ar gyfer "provision of automatic fire suppression systems in newly constructed and newly converted residential premises". Mae'r mater cadw hwn a'r eithriad wedi'u dileu ym Mil Cymru. Er bod hyn yn gam cadarnhaol i bob golwg, mae'n aneglur a fyddai chwistrellwyr tân domestig yn dod o fewn mater cadw 186 (rheoliadau adeiladu). Fe wyddoch fod y Cynulliad eisoes wedi pasio deddfwriaeth yn y maes hwn (Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011). Dyma enghraifft arall o gam posibl yn ôl, a byddem yn gwrthwynebu hyn.

Rydym yn pryderu y byddai mater cadw 206 (*cyfle cyfartal, gan gynnwys pwnc Deddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010*), fel y'i drafftwyd, yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad, ac mae hynny'n peri siom inni. Rydym o'r farn y gallai'r mater cadw hwn amharu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol mewn unrhyw ffordd ystyrlon.



Croesawn y cynnydd yng nghymhwysedd y Cynulliad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol o dan y setliad arfaethedig newydd (a nodwn y darparwyd ar gyfer y cynnydd hwn yn y Bil drafft hefyd). Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer bron pob agwedd ar etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys y sawl a gaiff bleidleisio. Mae hefyd yn chwalu unrhyw amheuaeth ynghylch gallu'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer y system bleidleisio, pe bai'n dymuno, sydd unwaith eto, i'w groesawu.

Profion cymhwysedd

Rydym yn cydnabod bod rhai consesiynau wedi'u gwneud o ran y cyfyngiadau ar addasu cyfraith breifat, cyfraith trosedd, ac ar addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl a swyddogaethau Gweinidog y Goron. Er bod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, nid yw'n datrys y broblem allweddol y bydd gosod y rhain, a phrofion eraill ar gymhwysedd, yn gwneud braidd ddim i wella eglurder nac i fynd i'r afael â chymhlethdod y trefniadau presennol.

Gobeithiaf y bydd yr uchod o ddefnydd wrth ichi baratoi eich adroddiad.

Cofion cynnes



John Griffiths AC / AM
Cadeirydd / Chair



Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Tŷ Gwydyr
Whitehall

23 Medi 2016

Annwyl Alun,

Bil Cymru – Cylch Gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2016, bu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn trafod Bil Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn egluro'r rhannau hynny o'r Bil y tynnir sylw atynt yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Yn benodol, lle'r ydym wedi nodi meysydd lle'r ydym yn pryderu fod gan y Cynulliad lai o gymhwysedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r asesiad hwnnw a rhoi eglurhad ynghylch sut y penderfynwyd ar y cymalau cadw. Yn wir, gallai fod yn ddefnyddiol gosod cymal yn y Bil yn cadarnhau nad bwriad y setliad newydd yw lleihau ystod neu gwmpas y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb er mwyn cyfrannu at drafodaethau Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad.

Yn gywir



Russell George AC,
Cadeirydd



Atodiad

Ym mis Tachwedd 2015, gofynnodd cyn Bwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru am eglurhad am y cymalau cadw a'r meysydd penodol hynny o'r Bil Cymru drafft a oedd yn gymwys i'r pynciau yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

Fel cyn Bwyllgor y Pedwerydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn croesawu'r cynnydd yn y pwerau ar gyfer trafndiaeth, o ran gallu'r Cynulliad i ddeddfu yn ogystal â'r cynnydd yn mhwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn meysydd penodol. Hefyd, y cymalau cadw a restrwyd yn y Bil Cymru drafft sydd wedi'u dileu o'r Bil presennol, fel y'i gosodwyd, ac sy'n ymwneud â'r canlynol:

- hysbysebu, yn enwedig rheoliadau o ran tybaco a chynnyrch tybaco
- arwyddion traffig yn gyffredinol
- cludiant ar y môr ac ar ddyfrffyrdd

Hefyd, bod eithriad wedi'i ychwanegu i gymal cadw (hynny yw, maes y caiff y Cynulliad ddeddfu ynddo), o ran pwnc Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sy'n adlewyrchu'r cymhwysedd yn y setliad presennol.

Fodd bynnag, i raddau helaeth, mae'r un materion y nodwyd eu bod yn peri pryder yn y cymalau cadw yn y Bil Cymru drafft, ac a nodir isod yng ngwaith y Pwyllgor hwn, yn dal i fod yn berthnasol ym Mil Cymru fel y'i cyflwynwyd. Felly, mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn parhau i gymeradwyo'n llwyr bryderon y cyn Bwyllgor Menter a Busnes am y cymalau cadw canlynol yn y Bil sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn ac a allai effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad pe byddai'r Bil yn dod i rym, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

Mae'r cyfeiriadau isod at *'Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru'* yn cyfeirio at y setliad presennol o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r cyfeiriadau at *'setliad newydd'* yn cyfeirio at Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ym Mil Cymru.

1.0Gweler isod farn y Pwyllgor ynghylch materion penodol a gedwir yn ôl o dan **Atodlen 7A – Pennawd C – Masnach a Diwydiant.**



1.1 Adran C6 Diogelu defnyddwyr

- 1.2 Mae'r eithriad presennol yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhwystro'r Cynulliad rhag deddfu ynghylch *'consumer protection, including the sale and supply of goods to consumers, consumer guarantees, hire purchase, trade descriptions, advertising and price indication....'*
- 1.3 Mae'r setliad newydd yn cynnwys disgrifiad manylach o'r hyn y mae'r cymal cadw 'diogelu defnyddwyr' yn ei gynnwys. Er enghraifft, **ym mater a gedwir yn ôl 70** mae'r geiriau ychwanegol 'supply of services to consumers' i'w gweld yn y setliad newydd. Nid yw'r rhain yn rhan o'r eithriad presennol ar gyfer diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Felly, mae geiriad y mater hwn a gedwir yn ôl yn gulach.

Mae'n dal i fod yn destun pryder i'r Pwyllgor nad yw'n glir a yw cyflenwi gwasanaethau i ddefnyddwyr yn gymwys yng nghyd-destun Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 yn unig ynteu a fwriedir iddo fod yn gymwys yn ehangach ar draws gwahanol fathau o wasanaethau i ddefnyddwyr yn fwy cyffredinol, e.e. gwasanaethau bws ac ati.

- 1.4 Yn ogystal, mae'r setliad newydd yn cynnwys y geiriad *'safety of, and liability for, services supplied to consumers'* ym mater a gedwir yn ôl 71. Nid yw'r geiriau hyn ychwaith i'w cael ar hyn o bryd yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac felly maent yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu fod cymhwysedd y Cynulliad yn gulach o ran mater a gedwir yn ôl 71.

- 1.5 O ran mater 72 a'r cyfeiriad at 'estate agents', caiff y Cynulliad ar hyn o bryd ddeddfu ar hyrwyddo busnes a chystadleurwydd ac nid oes cyfeiriad penodol at werthwyr tai fel eithriad yn Atodlen 7. Gallai'r mater hwn, felly, **gulhau** cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â gwerthwyr tai.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r eglurder yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cadarnhau bod asiantau gosod yn gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli, ond mae'n



pryderu y gallai'r ffaith fod mater 72 yn cynnwys rheoleiddio gwerthwyr tai leihau cymhwysedd y Cynulliad.

- 1.6 Nid yw'r geiriau canlynol ym mater 76 yn eglur ac nid oes rhagor o fanylion yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil – *'the national accreditation body and the accreditation of bodies which certify or assess conformity to technical standards in relation to products or environmental management systems.'*

Barn y Pwyllgor yw ei bod yn aneglur a yw mater 76 yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad.

2.0 Adran C12 Ardaloedd a gynorthwyr a chyfyngiadau ar gymorth ariannol i ddiwydiant

- 2.1 Mae mater a gedwir yn ôl 87 yn cyfyngu cymhwysedd y Cynulliad o ran:

Adran 1 ac Adran 8(5)(7) o Ddeddf Datblygiadau Diwydiannol 1982 ('Deddf 1982')

- 2.2 Mae Adran 1 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy Orchymyn, bennu unrhyw ardal o Brydain yn ardal ddatblygu neu'n ardal ganolradd. Yn ogystal, mae Adran 8 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol ar gyfer diwydiant. Yn ôl paragraff 195 o'r Nodiadau Esboniadol, 'O ganlyniad i gadw'r mater sy'n ymwneud â'r terfynau ariannol, ni all cymorth ariannol a roddir i ddiwydiant o dan adran 8 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion y DU fod yn fwy gyda'i gilydd na throthwyon ar gyfer cyfanswm gwariant sy'n cael eu gosod gan Weinidogion y DU'.

- 2.3 Er bod pwerau gweithredol yn cael eu cadw ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Adran 8 o Ddeddf 1982, fe allai'r ffaith bod pwnc Deddf 1982 wedi ei gynnwys gulhau gallu'r Cynulliad i ddeddfu o dan eiriad presennol Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r pennawd cyffredinol 'economic regeneration and development'.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu fod cymhwysedd y Cynulliad yn gulach oherwydd cadw mater 87.



3.0 Gweler isod farn y Pwyllgor ynghylch materion penodol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A – Pennawd E – Trafnidiaeth yn y Bil.

3.1 Adran E1 Trafnidiaeth ffyrdd

3.2 Mae mater 104 yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr ac mae'n cynnwys hyfforddiant, profi ac ardystio. O dan Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y llaw arall, cyfeirir ato fel 'trwyddedu gyrwyr' yn unig.

3.3 Mae'r geiriad, felly, yn gulach o dan y setliad newydd, a gallai'r ffaith bod y gair 'training' wedi'i gynnwys effeithio ar allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu fod cadw mater 104 yn achosi lleihad yng nghymhwysedd y Cynulliad o ystyried y caiff y Cynulliad, o dan y setliad presennol, ddeddfu ar hybu diogelwch ar y ffordd.

4.0 Adran E2 Trafnidiaeth ar reilffyrdd

4.1 Mae'r eithriad presennol o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn cyfeirio at 'provision and regulation of railway services'. O dan y setliad newydd, mae mater 123 yn cyfeirio at '*railway services*' yn unig.

4.2 Mae'r ddarpariaeth ddehongli o dan E2 yn diffinio 'railway services' yn fwy penodol drwy gyfeirio at adran 82 o Deddf Rheilffyrdd 1993. Mae hyn yn cynnwys:

- *services in relation to the carriage of passengers, luggage, parcels mail and goods and services in relation to stations,*
- *maintenance facilities and*
- *the provision and operation of the rail network itself*

Mae'r diffiniad o 'railway services' yn gulach na'r hyn sydd yn y setliad presennol, ac mae'r Pwyllgor yn pryderu am y lleihad posibl mewn cymhwysedd a allai ddeillio o gadw mater 115.

4.3 Adran E6: materion eraill



4.4 Mae'r eithriad presennol yn Atodlen 7 yn cyfeirio at fanyleb dechnegol ar gyfer tanwydd i'w ddefnyddio mewn peiriannau mewndanio, ac mae'r setliad newydd o dan fater 126 yn cyfeirio at yr un peth, fel a ganlyn:

'technical specifications for fuel or other energy sources or processes for use in road, rail, marine waterway or air transport'

4.5 Mae geiriad y setliad newydd yn fwy cyfyng ac yn cynnwys ffurfiau ehangach eraill o deithio, ac yn cyfeirio at yriant heblaw peiriannau mewndanio, felly mae yma **leihad** o ran cymhwysedd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu fod cymhwysedd y Cynulliad yn gulach oherwydd cadw mater 126.

5.0 Rheoleiddio bysiau

Roedd rheoleiddio bysiau yng Nghymru yn faes yr oedd y Pwyllgor blaenorol a Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael rhagor o bwerau ar ei gyfer. Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol i'r Pwyllgor hwn hefyd i ddangos sut y gellid ystyried Rheoleiddio Bysiau o ran cymhwysedd y Cynulliad yn y setliad newydd.

5.1 Enghraifft: *O dan y setliad newydd, mae modd i'r Cynulliad ddeddfu ynghylch cofrestru bysiau lleol. At hynny, dywedodd yr Adran Drafnidiaeth wrth y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Medi 2015 ei bod yn credu bod gan y Cynulliad/Gweinidogion Cymru bwerau i reoleiddio bysiau eisoes.*

5.2 *Yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae pwerau gweithredol cyfyngedig fel y gall Gweinidogion Cymru/awdurdodau lleol gydgyssylltu gweithrediadau bysiau. Ceir y pwerau hynny yn y Ddeddf Trafnidiaeth a Deddf Trafnidiaeth Leol 2008, ac maent yn cynnwys Partneriaethau Gwirfoddol a Statudol a Chontractau Ansawdd Statudol.*

5.3 *Mewn theori, dylai'r ddau ddull uchod ganiatáu ar gyfer rheoleiddio bysiau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cafeat i hyn. Y rheswm am hyn yw bod rhai o'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â rheoleiddio yn cynnwys y*



posibilrwydd y gellid capio a rheoleiddio prisiau tocynnau a thocynnau integredig. Nid yw'n glir a fyddai meysydd fel hyn yn rhan o'r cymalau cadw canlynol:

C3: Cystadleuaeth: mater 67 'Regulation of anti-competitive practices and agreements; abuse of dominant position; monopolies and mergers'.

C6: Diogelu defnyddwyr: mater 70 'Regulation of the sale and supply of... services to consumers'

Mae'r Pwyllgor yn pryderu y byddai prisiau a thocynnau integredig ac ati yn dod yn rhan o'r cymalau cadw uchod pe byddai Cymru'n arfer opsiwn o'r fath.

6.0Gweler isod farn y Pwyllgor ynghylch materion penodol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A – Pennawd H – Cyflogaeth yn y Bil.

6.1 Adran H1 – Cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol

6.2 Ar hyn o bryd, caiff y Cynulliad ddeddfu ar 'bynciau tawel' (pynciau nad ydynt wedi'u datganoli, nac yn eithriadau o dan Atodlen 7) ar yr amod eu bod yn ymwneud â phynciau y rhoddwyd pŵer i ddeddfu yn eu cylch o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r setliad presennol.

6.3 Cadarnhawyd hyn gan benderfyniad y Goruchaf Lys yn achos Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 lle dyfarnwyd bod y Ddeddf o fewn cymhwysedd er ei bod yn ymwneud ag 'amaethyddiaeth', sy'n bwnc datganoledig a 'chfylogaeth', sy'n bwnc tawel.

6.4 Yn y setliad newydd mae pwnc tawel 'cyflogaeth' wedi dod yn fater penodol a gedwir yn ôl o dan Bennawd H '*Employment rights and duties and industrial relations including the subject of...*' [yna cyfeirir at restr o ddeddfwriaeth benodol ynghylch cyflogaeth].

6.5 At hynny, mae eithriad penodol wedi'i wneud i'r cymal cadw hwn sy'n eithrio '*the subject-matter of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014*' ac yn gwarchod pwnc y Ddeddf hon.



- 6.6 Trwy gynnwys 'cyflogaeth' yn fater a gedwir yn ôl yn y setliad presennol ar y cyd â'r profion deddfwriaethol newydd, mae cymhwysedd y Cynulliad yng nghyd-destun cyflogaeth wedi'i leihau'n sylweddol.
- 6.7 Mae Pennawd arall hefyd yn y setliad newydd, sef 'Y Proffesiynau', sy'n cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol fel mater na cheir deddfu yn ei gylch. I bob golwg, mae hwn yn gymal cadw ehangach na'r eithriad presennol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.
- 6.8 Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol i'r Pwyllgor i ddangos sut y gallai Bil arfaethedig gael ei ystyried o dan y setliad newydd:
- *Gallai Bil Cynulliad geisio deddfu ar gyflogau, amodau a hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol mewn modd tebyg i Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.*
 - *O dan y setliad presennol, ac yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys ar Ddeddf 2014, byddai Bil sy'n ymwneud â'r sector gofal cymdeithasol o fewn cymhwysedd.*
 - *Yn yr Atodlen 7A arfaethedig, o dan Bennawd H, Adran H1, mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn faterion a gedwir yn ôl. Golyga hynny y gallai'r Bil fod y tu allan i gymhwysedd.*
 - *Mae'r unig eithriad i bwnc Deddf 2014 yn gwneud hyn yn fwy tebygol, gan awgrymu, er bod cyflogau amaethyddol, gwyliau a hyfforddiant o fewn cymhwysedd, y bydd y rhain yn faterion a gedwir yn ôl mewn sectorau eraill.*

Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr ac yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau o ran deddfu ar 'bynciau tawel', megis cyflogaeth, ar yr amod eu bod 'yn ymwneud â' phynciau y rhoddwyd pŵer i ddeddfu yn eu cylch o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

7.0 Adran H3 – Chwilio am swyddi a chymorth

7.1 Gallai mater a gedwir yn ôl 141: 'Arrangements for assisting persons to select, train for, obtain and retain employment and to obtain suitable employees', gulhau cymhwysedd y Cynulliad ar ddatblygu economaidd o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae nodiadau esboniadol y Bil yn egluro mai'r 'bwriad wrth gadw'r mater hwn yw cadw cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r holl raglenni



cysylltiedig â gwaith ar gyfer pobl anabl'. Er gwaethaf yr esboniad, mae'r geiriad o bosibl yn culhau cymhwysedd y Cynulliad o dan 'adfywio a datblygu economaidd' yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y lleihad posibl mewn cymhwysedd wrth gadw mater 141.

8.0 Meysydd penodol o ansicrwydd mewn perthynas â phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru

8.1 Yn y Bil, nid ymdrinnir â datganoli Masnachfaint Cymru a'r Gororau nac â throsglwyddo swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru.

8.2 Yn ôl cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a pharagraff 2.5.10 o'r ddogfen Pwerau at Bwrpas:

8.3 *'Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datganoli swyddogaethau masnachfreinio i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i arwain gwaith caffael a rheoli masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau.'*

8.4 Mewn datganiad ysgrifenedig ar 12 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet, fel a ganlyn: 'from early 2017, responsibility for rail franchising will be transferred from the Secretary of State to the Welsh Ministers'.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn falch o gael eglurhad gan Lywodraeth y DU am yr amserlen sydd ganddi dan sylw wrth ddatganoli swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Masnachfaint Cymru a'r Gororau, o ystyried nad oes darpariaeth yn y Bil ar gyfer hyn.

8.5 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn y gorffennol am newid Deddf Rheilffyrdd 1993 mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i gyrff yn y sector cyhoeddus gynnig am gontractau masnachfaint. Byddai hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban lle darperir ar gyfer masnachfaint yng



nghymal 49 o Fil yr Alban 'Rail: franchising of passenger services'. Nid oes darpariaeth debyg wedi'i gwneud yn y Bil.

8.6 Wrth drafod goblygiadau Comisiwn Smith i Gymru, dywedodd cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi y byddai dadansoddiad yn cael ei wneud o argymhellion perthnasol Comisiwn Smith yng nghyd-destun Cymru fel y gellir gwneud penderfyniadau yn fuan yn y Senedd nesaf ynghylch pa argymhellion i'w rhoi ar waith yng Nghymru.

8.7 Dywedodd swyddogion yr Adran Drafnidiaeth wrth y cyn Bwyllgor Menter a Busnes ym mis Medi 2015 fod y mater yn cael ei drafod: *"the UK Government agreed to consider which non-fiscal parts of the Smith Commission agreement, including that commitment, might be implemented for Wales. That consideration is on-going, and further discussions with the Welsh Government will take place shortly in the context of preparing the Wales Bill"*.

Mewn perthynas â chyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a goblygiadau Comisiwn Smith i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â diwygio Deddf Rheilffyrdd 1993 (a fyddai'n caniatáu i gyrff y sector cyhoeddus gynnig am gontractau masnachfrait), mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw hyn yn rhan o Fil Cymru.



Huw Irranca–Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd CF99 1NA

28 Medi 2016

Annwyl Huw

Bil Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn am farn Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Fil Cymru.

Cynhaliodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Cynulliad sesiwn friffio i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r Bil a'r cymalau cadw penodol sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor. Er gwybodaeth, rwyf wedi atodi rhestr o'r cymalau cadw hynny i'r llythyr hwn, yn ogystal â disgrifiad o'r effaith y gallant ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch effaith y Bil ar allu'r Cynulliad i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg. Ar 14 Medi, clywsom dystiolaeth lafar gan staff uwch y Comisiynydd am bryderon y Comisiynydd. Amgaeaf lythyr y Comisiynydd at Alun Cairns, dyddiedig 14 Gorffennaf, ynghyd â'r ymateb a gafwyd gan Guto Bebb AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol, a'u gohebiaeth ddilynol. Mae trawsgrifiad o'n sesiwn gyda staff y Comisiynydd wedi'i gyhoeddi ar-lein.

Trafododd y Pwyllgor y Bil eto yn ein cyfarfod ar 22 Medi. Mynegodd yr Aelodau nifer o bryderon am y Bil ar ei ffurf bresennol.

O ran y materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, roedd y Pwyllgor yn fodlon na fyddai'r Bil yn cael effaith ôl-weithredol ar y broses o roi Mesur y



Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r Bil gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol, ac mai effaith y Bil yn y cyd-destun hwn fyddai dileu rhywfaint o'r cymhwysedd sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Ein dealltwriaeth yw os diwygir Mesur y Gymraeg mewn unrhyw ffordd yn y dyfodol, ar ôl deddfiad Bil Cymru, bydd pwerau'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn yn gyfyngedig. Mae hyn yn wir yn achos pryder mawr.

O ran y gofyniad i geisio caniatâd Llywodraeth y DU mewn perthynas â gosod dyletswyddau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar gyrrff cyhoeddus y DU, awgrymodd un o'r Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cynnwys eithriad 'de minimis' o ryw fath yn y Bil.

Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch y cymal cadw ar ddarlledu. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod darlledu ar hyn o bryd yn eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, ymddengys fod y cymal cadw newydd hefyd yn dynodi bod y BBC yn destun cymal cadw penodol ychwanegol, ac nid yw'r rhesymau am hyn yn gwbl glir. Ymddengys fod y drefn hon yn mynd ymhellach na'r eithriad presennol, ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw dueddiadau ehangach o ran sicrhau bod y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn atebol yn gyhoeddus i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hefyd yn awgrymu y byddai'r cymal cadw newydd yn cynnwys pob gweithgaredd gan y BBC, nid y gweithgareddau'n ymwneud â darlledu yn unig. Roeddem hefyd yn pryderu am gynnwys 'cyfryngau eraill' yn y cymal cadw. Eto, mae'n ymddangos bod hwn yn cael yr effaith o gulhau ein cymhwysedd presennol y tu hwnt i ddarlledu.

Yn fwy cyffredinol, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch y posibilrwydd y byddai unrhyw gymal cadw yn cael yr effaith o leihau cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad. Efallai ei bod yn amserol nodi bod pwerau presennol y Cynulliad yn deillio o'r refferendwm a gynhaliwyd yn 2011, ac felly, fel mater o egwyddor, ni ddylai'r Bil arwain at sefyllfa lle bydd gan y Cynulliad llai o bwerau, neu bwerau gwannach, na'r pwerau y pleidleisiodd pobl Cymru drostynt yn y refferendwm. Yn wir, efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cymal yn y Bil



sy'n cadarnhau nad bwriad y setliad newydd yw lleihau amrediad neu gwmpas y pwerau a ddatganolwyd i Gymru.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol. Er gwybodaeth, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Yn gywir

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC

Cadeirydd



ATODIAD - TABL O'R CYMALAU CADW SYDD FWYAF PERTHNASOL I'R PWYLLGOR

Cymal cadw – Adran a rhif	Disgrifiad	Effaith y cymal cadw ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad
B16, 54 a 55	54 Dosbarthiad ffilmiau a recordiadau fideo (gan gynnwys gemau fideo) 55 Trwyddedu– darparu adloniant, a lluniaeth hwyr y nos.	Geiriad ychydig yn wahanol i'r eithriad presennol; lleihad bychan mewn cymhwysedd. Nid yw "gemau fideo" yn cael eu cynnwys fel eithriad ar hyn o bryd.
B17, 56	Gwerthu a chyflenwi alcohol	Y geiriad ychydig yn ehangach na'r eithriad presennol ond bod yr effaith yn debygol o fod yr un peth.
B18, 57	Betio, hapchwarae a loteriau	Heb ei newid.
B22, 61–62	Elusennau a chodi arian	Ddim yn eithriad o gymhwysedd ar hyn o bryd, felly ymddengys ei fod yn leihad mewn cymhwysedd.
J6, 153–155	Materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch – gan gynnwys diogelwch tân (ac eithrio hyrwyddo diogelwch tân heblaw drwy wahardd neu	Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol; yr effaith ymarferol yn aneglur , yn arbennig pan fydd wedi'i gyfuno â



	reoleiddio).	chyfyngiad arall ar gymhwysedd.
K1, 156 a 157	Darlledu a chyfryngau eraill; y BBC.	Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol; yr effaith ymarferol yn aneglur .
K2, 158	Hawl fenthyca gyhoeddus	Heb ei newid.
K3, 159	Cynllun indemniad y Llywodraeth ar gyfer gwrthrychau sydd ar fenthyg	Heb ei newid.
K4, 160	Eiddo a dderbyniwyd yn lle treth a gwaredu eiddo o'r fath	Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol – lleihad mewn cymhwysedd.
K5, 161	Diogelwch meysydd chwaraeon	Ddim yn eithriad o gymhwysedd ar hyn o bryd – lleihad mewn cymhwysedd.



Huw Irranca-Davies AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs
Committee

29 September 2016

Dear Huw

Wales Bill

Thank you for your letter of 18 July 2016, regarding the Constitutional and Legislative Affairs Committee's current scrutiny of the Wales Bill. We very much appreciate the opportunity to feed into that process.

As you are aware, our predecessor committee considered the draft Wales Bill with three specific things in mind:

- Was the draft Wales Bill clear?
- Did it affect the Assembly's competence in relation to children, young people and education; and
- What did the draft Bill mean for the Assembly's ability to legislate in the future.

In considering the Wales Bill now, the Committee believes that these three areas are still very relevant, and looked at the impact of the Wales Bill along these same broad lines. In general terms, the views of the Children, Young People and Education Committee (CYPE) remain as set out in our letter to the Secretary of State in November 2015. Of particular concern are (a) the roll back of competence in specific areas, and (b) the clarity of the reservations.

These two areas are likely to cause concern across Assembly Committees. This response sets out the specific concerns of CYPE Committee, in relation to the effect of the Bill on matters within its remit, together with general observations of Committee members.



Is the Wales Bill clear and are there ways it can be made clearer?

The Bill contains over 200 specific reservations, wide-ranging general reservations, new “necessity” tests and broadened requirements for consents. The combination of these tests and reservations has made it difficult to assess with confidence the impact of the Bill on those areas that fall within the Committee’s remit.

Unfortunately the Explanatory Notes that accompany the Bill do not explain or rationalise why certain reservations have been included or expressed as they have been. There is also no overarching principle that enables a clear understanding of why certain reservations have been included and how wide reaching they will be. This has made scrutiny more difficult, and in relation to many reservations listed below, further clarification as to the extent of their effect is required.

Does the Wales Bill affect the Assembly’s current competence in relation to children, young people and education?

During our discussions (both on the draft Bill and the Wales Bill) the Committee identified specific reservations which appear to reduce the Assembly’s competence in relation to children, young people and education and the matters that affect them:

Reservation 37 – The prevention, detection and investigation of crime

This reservation is potentially very wide and could have significant implications if the Assembly wished to legislate in areas concerning child protection, for example.

The exception to this reservation (areas where the Assembly will have competence) would allow the Assembly to legislate in relation to “powers of entry, search and seizure relating to the investigation of an offence of a kind provision for the creation of which is within the Assembly’s legislative competence.” However, despite the inclusion of this exception, this reservation is potentially wide-ranging and it is not clear without further clarification what this particular restriction could cover. The Committee is concerned that this reservation could limit the Assembly’s power to legislate, and believes that further clarification on the intention of reservation 37 is required.

Reservation 61 – Charities

As drafted, this reservation could impinge on the Assembly’s ability to legislate in relation to private schools with charitable status as well as, for example, institutions in the Higher and Further Education sectors.

The explanatory notes state that the “reservation will not affect the ability of the Assembly or Welsh Government to confer, impose, or modify functions of public



bodies operating within devolved areas who also happen to be charities”. While explanatory notes can be a useful interpretative tool for the courts, they have no legal effect and could be changed prior to Royal Assent. Therefore, for the sake of clarity, the Committee believes that the explanation provided in the explanatory notes should be placed on the face of the Bill.

Reservation 174 to 177 – Family relationships and children

Under GOWA, specific elements of family law were devolved. These are listed under GOWA as being:-

*“(a)Welfare advice to Courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families, and
(b)Welsh family proceedings officers.”*

However, these areas are no longer listed as exceptions in the Bill and it is unclear whether the reservations as drafted would remove this limited competence that the Assembly currently possesses. The Committee believes that the position must be made clear.

Reservation 175 includes “Parenthood, parental responsibility, child arrangements and adoption.”

In the interpretation section “child arrangements” is defined as including the subject matter of Part 2 of the Children Act 1989. Part 2 covers Court Orders with respect to children in family proceedings and would have been regarded in any event as coming within the “family law and proceedings” exception in heading 15 of Schedule 7 to GOWA. The inclusion of Part 2 in the reservation makes no change in the Assembly’s legislative competence. However, the reservation does not limit itself to only Part 2 of the Children Act as it merely “includes” it under “child arrangements”. The explanatory notes are unhelpful and give no further detail. The Committee believes that further clarification is needed before a clear conclusion can be reached that this does not represent a change in the legislative competence of the Assembly.

More significant, and of greater concern to the Committee, is that reservation 175 includes adoption. Apart from inter-country adoption, adoption services (such as the recruitment of adopters, training, matching and post-adoption support) is currently devolved in its entirety. This change would only leave the Assembly competence in relation to adoption agencies and their functions. This is clearly a reduction in the Assembly’s current legislative competence, and the Committee cannot support this.



Reservation 176 includes the subject-matter of Parts 4 and 5 of the Children Act 1989 and other proceedings related to the care, supervision or protection of children. However, it is not clear whether “subject matter of Parts 4 and 5” means the contents of Parts 4 and 5. If so, for clarity, the Committee believes this should be confirmed by the UK Government or preferably a definition inserted into the interpretations section of the Bill.

Part 5 of the Children Act 1989 for example is headed “protection of children.” Although technically a title in legislation has no legal effect, the Committee believes that there needs to be an assurance that the “protection of children” is not being reserved, especially as the Assembly currently has full legislative competence in relation to “protection and well-being of children.”

Reservation 187 – Equal Opportunities

Under the current arrangements the Assembly can amend equality legislation insofar as its legislation relates to equal opportunities for public authorities. While some limited competence would exist by virtue of some exceptions in the Bill, the Committee is extremely concerned that this reservation includes the subject matter of the Equality Act 2006 and the Equality Act 2010 and would therefore reduce the Assembly’s legislative competence significantly.

The Committee cannot support this reduction in legislative competence, and seeks urgent clarification as to why legislative competence is being rolled back in this respect.

Reservation 194 – School teachers’ pay and conditions

School teachers’ pay and conditions are expressly reserved in the Bill. Teachers’ pay and conditions was not a devolved area under the current settlement and was protected by the current provisions on Minister of the Crown consents.

The Welsh Government have asked that this should not be a reservation and should be reconsidered especially in light of the fact that it was the UK Government that requested the Silk Commission to consider the devolution of Teachers’ Pay and Conditions. The Secretary of State for Wales gave a commitment in his letter dated 3rd September 2015 to the First Minister to give further consideration to the devolution of teachers’ pay and conditions. The Committee therefore seeks urgent clarification as to why teachers’ pay and conditions has been listed as a reservation.

Restrictions on Criminal law

The Committee notes that one of the new restrictions under the Bill is that an Assembly Act must not modify or create a criminal offence in a “listed category.” Sexual offences (including offences relating to indecent or pornographic images) is included in the listed category of offences. The example below demonstrates



how the proposed settlement would reduce the Assembly's competence in relation to the criminal law and specifically affect the remit of this Committee.

Example - Sexual exploitation of children

In the context of sexual exploitation of a child, the definition of "sexual exploitation" in the Sexual Offences Act 2003 includes "recording" indecent images of a child. The Policing and Crime Bill amends that definition to clarify that "streaming" and "transmitting" indecent images of a child are included in the definition.

This is within the legislative competence of the Assembly because it relates to the following Schedule 7 subject:

- the protection and well-being of children.

There are no relevant exceptions (for example, sexual offences is not an exception). Therefore, this part of the Policing and Crime Bill is currently within the legislative competence of the Assembly and the Assembly's consent is needed before the UK Parliament can legislate in this area.

Under the Wales Bill, Assembly legislation will not be able to modify or create a sexual offence. The Policing and Crime Bill's amendment to the definition is modifying (or possibly creating) a sexual offence, therefore under the Wales Bill it would be outside the Assembly's competence and no LCM would be needed.

How will the draft Bill affect the Assembly's ability to legislate effectively in future?

The Committee remains concerned that the reservations, necessity tests and other restrictions in the Bill will unnecessarily constrain the Assembly's ability to legislate effectively in areas where it already has powers or functions. I refer the Committee to the example set out in our letter to the Secretary of State for Wales with regard to the designation of the Chief Officer of police as a partner on safeguarding boards.

The Committee did, however, welcome the removal of the reservation relating to the Children's Commissioner in England. This means that while the UK Children's Commissioner will remain a reserved authority, the Assembly in future could legislate to extend the remit of the Office of the Children's Commissioner for Wales subject to the consent of the relevant Secretary of State.

This represents a step forward from the current position. However, the Committee notes that any future proposals for the extension of powers for the Commissioner could still be vetoed by a UK Minister.



The Committee believes that, given the lack of clarity in the reservations and general restrictions, there must be scope to amend these in the future. The Committee acknowledges that GOWA Section 109 Orders are likely to remain in place, but that this can be a lengthy, and complicated, process. In order to secure a more streamlined process, there should be a more flexible system whereby a reservation or general restriction could be amended, possibly with the consent of a Minister of the Crown.

Conclusion

The Committee has grave concerns about the proposed reduction in the Assembly's competence in areas that fall within the Committee's remit.

The Committee is extremely concerned about the lack of clarity in the Bill, and believes that:

- reservations should be underpinned by principles, which can be explained clearly and simply; and
- the full extent of the specific reservations should be explained in the explanatory notes accompanying the draft Bill.

The Committee believes there should be a more flexible system whereby a reservation or general restriction could be amended, possibly with the consent of a Minister of the Crown.

The Committee acknowledges that the legislative timetable for the Bill makes consideration of these matters difficult, but believes that these matters must be addressed before the passage of the Bill is complete.

Yours Sincerely



Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair



Huw Irranaca-Davies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

26 Medi 2016

Annwyl Huw

Bil Cymru: Cymalau cadw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Ar 14 Medi 2016, rhoddwyd ystyriaeth i'r cymalau cadw ym Mil Cymru sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

I gefnogi'r drafodaeth hon, darparodd Gwasanaeth Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad friff ysgrifenedig yn crynhoi'r materion sy'n gysylltiedig â'r cymalau cadw hyn. Amgaeir y briff hwn, a gofynnwn ichi ei ystyried wrth lunio eich casgliadau mewn perthynas â Bil Cymru ('y Bil').

Yn ychwanegol at y materion a godwyd yn y briff hwn, mae gennym dri phryder arall yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

Addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd

Mae polisi a deddfwriaeth yr UE yn dylanwadu'n gryf ar lawer o'r meysydd polisi y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu arnynt. Yn arbennig meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd.

O dan y setliad presennol, mae rhyddid i'r Cynulliad ddeddfu'n eang yn y meysydd hyn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir o dan Fil Cymru (yn amodol ar unrhyw bryderon a godwyd yn y papur briffio cyfreithiol amgaeedig).

Mae'r Pwyllgor am gadw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y meysydd hyn ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Byddem yn croesawu cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch a yw'n derbyn y safbwynt hwn.



Caniatâd i gynlluniau ynni

Ysgrifennodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fynegi pryderon ynghylch ffiniau cul y pwerau sy'n cael eu datganoli o ran rhoi caniatâd i gynlluniau ynni.

Rydym yn rhannu rhai o'r pryderon hyn.

Mae'r Bil yn cynnig y bydd y Cynulliad yn ennill cymhwysedd dros:

- bob prosiect cynhyrchu trydan gwynt ar y tir yng Nghymru; a
- phob prosiect cynhyrchu trydan arall yng Nghymru ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru, hyd at 350MW.

Galwodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd am ddatganoli'n llawn y drefn o roi caniatâd i gynlluniau ynni pan gyflawnwyd gwaith dilynol ar ei adroddiad ar *Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru yn 2012*.

Galwodd y Pwyllgor hwnnw hefyd am ddatganoli'r cymhellion ariannol sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a'r system ganiatâd ar gyfer gwelliannau i seilwaith y grid.

Nodwn ddau achos arall sy'n peri pryder o ran yr agwedd hon ar y cynigion.

Yn gyntaf, rydym yn pryderu bod y terfyn uchaf o 350MW yn fypwyol. Rhoddodd y Comisiwn Silk gyfiawnhad dros y cyfyngiad hwn, ond gellir cwestiynu'r cyfiawnhad hwnnw, yn enwedig gan fod y sefyllfa yng Nghymru wedi symud ymlaen yn sylweddol ers i Gomisiwn Silk edrych ar y mater.

Rydym wedi gweld prosiectau fel morlyn llanw Bae Abertawe yn symud yn eu blaenau, ac mae cynigion ar gyfer morlynnoedd llanw mwy o faint ar y gweill.

O dan y cynigion yn y Bil, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi rhoi caniatâd i'r prosiect yn Abertawe. Ond ni allent fod wedi rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau mwy o faint sy'n cael eu cynllunio mewn mannau eraill yn Aber Afon Hafren ger Caerdydd a Chasnewydd ac oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Ni fu dim eglurhad ar y rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad hwn.

Yr ail beth sy'n ein pryderu yw bod mwy o wahaniaeth yn datblygu rhwng polisi ynni yng Nghymru ac ar lefel y DU.

Os na wneir dim mwy na chynyddu'r nenfwd ar gyfer y mathau o ddatblygiad a all gael caniatâd yng Nghymru, ni fydd Cymru yn gallu gwneud fawr mwy na gwneud rhai penderfyniadau cyfyngedig o fewn fframwaith polisi'r DU. Ni all ddatblygu a gweithredu polisi ynni sydd wir wedi'i ddatganoli ar gyfer Gymru, heb gael pwerau



llawer ehangach mewn meysydd fel cyflenwi trydan, rheoleiddio'r grid a'r gyfundrefn cymhellion.

Gwresogi ac oeri

Mae hwn yn gymal cadw newydd nad oedd yn y Bil drafft.

Mae paragraff 217 o'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod yr adran yn cadw'r pŵer ar gyfer prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi o safbwynt systemau gwresogi ac oeri. Mae'n diffinio systemau cyfun gwres a phŵer (a elwir hefyd yn systemau cyd-gynhyrchu) fel gosodiadau sy'n cynhyrchu pŵer trydanol ac ar yr un pryd yn casglu gwres i'w ddefnyddio.

Gwelir datblygiadau gwres ac ynni cyfun fel arfer yng nghyd-destun datblygiadau lleol. Hoffem ragor o eglurhad ynghylch y sail resymegol dros gynnwys y cymal cadw hwn.

Yn gywir,



Mark Reckless AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Glwedig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Huw Irranca–Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

29 Medi 2016

Annwyl Huw

Bil Cymru Llywodraeth y DU

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn ymwneud â'r gwaith y mae'ch Pwyllgor yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd ar Fil Cymru. Yn y llythyr hwnnw, fe'n gwahoddwyd ni i ysgrifennu atoch i roi ein barn am y Bil, gan roi sylw penodol i effaith y cymalau cadw ar ein cylch gwaith ac unrhyw newidiadau yn y [safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor blaenorol](#) ar Fil Cymru drafft.

Sylwadau cyffredinol

Trafododd y Pwyllgor y Bil ar 15 Medi. Rydym yn parhau i fod o blaid symud tuag at fodel cadw pwerau gan ein bod yn credu y gallai gynnig darlun cliriach o'r setliad datganoli yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yn rhaid addasu'r model hwn yn benodol ar gyfer Cymru, gan roi ystyriaeth lawn i'r datblygiadau hyd yma ym maes datganoli, gan gynnwys canlyniad y refferendwm yn 2011 i gynyddu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn anffodus, ymddengys nad yw'r Bil sydd gerbon yn gwneud hynny. Fel y Bil drafft, mae'n darparu ar gyfer nifer sylweddol o brofion cymhwysedd cymhleth. Yn ein barn ni, mae effaith gronnus y profion hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu, gan leihau cymhwysedd mewn nifer o feysydd polisi.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English



Yn ogystal â'r profion cymhwysedd, roedd y Pwyllgor blaenorol yn pryderu ynghylch nifer ac amrywiaeth y materion a gedwir yn ôl o dan y Bil drafft ac effaith hyn ar allu'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol. Yn anffodus, ymddengys nad yw'r Bil sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd y gwella'r sefyllfa, ac mae llawer o'r pryderon a godwn yn y llythyr hwn yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd eisoes gan y Pwyllgor hwnnw am y Bil drafft.

Gyda'i gilydd, mae'r profion cymhwysedd a'r rhestr helaeth o faterion a gedwir yn ôl o dan y Bil yn debygol o olygu y bydd gan y Cynulliad lai o bwerau i ddeddfu nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae hyn, yn ein barn ni, yn annerbyniol.

Yng ngweddill y llythyr hwn, byddwn yn ehangu ar y pryderon uchod ynghylch y profion cymhwysedd a'r materion a gedwir yn ôl, gan roi enghreifftiau ymarferol lle y bo'n bosibl.

Prawf "yn ymwneud â"

O dan y model cadw pwerau, ni chaiff deddfwriaeth y Cynulliad 'ymwneud â' mater a gedwir yn ôl. Gan hynny, bydd unrhyw ddeddfwriaeth sydd â mwy na 'chysylltiad llac neu ganlyniadol' ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn y Bil, yna bydd y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad. Gyda chryn bryder y nododd y pwyllgor blaenorol fod mwy na 200 o faterion a gedwir yn ôl wedi'u rhestru yn y Bil drafft. Rydym yn siomedig o weld mai dyma'r achos o hyd yn y Bil hwn. O fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn unig, gallai'r trefniadau newydd hyn fod yn niweidiol iawn i allu'r Cynulliad i basio (neu addasu) deddfwriaeth mewn meysydd polisi arwyddocaol lle y gall wneud hynny ar hyn o bryd. Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn egluro'r pwynt hwn.

Materion a gedwir yn ôl sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor

Cyflogaeth

Yn y cyswllt hwn, rydym yn pryderu am hawliau a dyletswyddau cyflogaeth. O dan y model presennol o roi pwerau, nid yw cyflogaeth wedi'i rhestru fel pwnc datganoledig yn Atodlen 7- gan hynny, mae'n 'bwnc tawel' ac mae'r Cynulliad yn



gallu deddfu yn y maes hwn, ar yr amod bod y ddeddfwriaeth yn ymwneud â mater datganoledig ac nad yw'n ymwneud ag eithriad.

Ym Mil Cymru, fodd bynnag, mae cyflogaeth yn newid o fod yn bwnc tawel i fod yn fater a gedwir yn ôl, gan atal y Cynulliad rhag deddfu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol ar faterion fel hawliau gweithwyr ac isafswm cyflog. Felly, o dan Fil Cymru, ni fyddai'r Cynulliad yn gallu pasio deddfwriaeth yn ymwneud â hawliau gweithwyr a'r isafswm cyflog hyd yn oed pe bai'r ddeddfwriaeth hefyd yn ymwneud â mater datganoledig fel 'lles cymdeithasol', er enghraifft. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ac annerbyniol yng nghymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad.

Trwydded gwerthu a chyflenwi alcohol

Rydym ninnau, fel y Pwyllgor blaenorol, yn pryderu am y ffaith bod gwerthu a chyflenwi alcohol yn fater a gedwir yn ôl. Mae yfed alcohol yn creu problemau iechyd difrifol a llwyddodd y Pwyllgor blaenorol i ymgymryd â chryn dipyn o waith yn y maes hwn. Mae'r hyn ddywedodd y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar¹ yn peri pryder inni: er bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflwyno isafbris uned oherwydd y buddion cysylltiedig o safbwynt iechyd cyhoeddus, roedd yn credu y gallai Bil Cymru fod yn "faen tramgwydd" pe bai'n dileu cymhwysedd y Cynulliad i deddfu yn y maes hwn.

Pwerau'r heddlu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar gyfer y Bil Heddlu a Throsedd yn ddiweddar. Ymhlith pethau eraill, mae'r Bil yn ymestyn pwerau'r heddlu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i fynd i mewn i eiddo er mwyn symud pobl sy'n dioddef o anhwylder meddwl oddi yno a mynd â nhw i le diogel. Mae hefyd yn darparu dulliau diogelwch penodol i gyfyngu ar y pwerau estynedig hynny, gan

¹ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon



gynnwys mwy o reolaeth dros y mathau o leoedd y gellir eu defnyddio fel 'lle diogel'. Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad oherwydd maent yn ymwneud â phynciau a restrir yn Atodlen 7, ac nid yw 'plismona' wedi'i eithrio. Gan hynny, mae angen cydsyniad y Cynulliad cyn y gall Senedd y DU ddeddfu yn y maes hwn.

O dan Fil Cymru, fodd bynnag, mae 'plismona' yn fater a gedwir yn ôl. Gan hynny, bydd y rhannau hynny o'r Bil a oedd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm diweddar, y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad os bernir bod ganddynt fwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol ar blismona. Dyna fyddai'r achos hefyd hyd yn oed os gellid barnu bod y rhannau hynny o'r Bil yn ymwneud ag atal anhwylderau meddyliol neu â gofalu am bobl agored i niwed, nad ydynt yn faterion a gedwir yn ôl o dan y Bil.

Yn yr achos hwn, ni fyddai angen Memorandwm, a byddai rhwydd hynt i Senedd y DU ddeddfu mewn maes y mae angen cydsyniad y Cynulliad arno ar hyn o bryd cyn y gall ddeddfu yn ei gylch.

Diwygio'r gyfraith yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl

O dan Fil Cymru, yn ogystal â sicrhau nad yw deddfwriaeth y Cynulliad yn 'ymwneud â' mater a gedwir yn ôl, ni chaiff ychwaith 'ddiwygio'r gyfraith' yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Fel y nododd y Pwyllgor blaenorol, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau'n glir ac mae'r deddfwriaeth y mae'n ei gwmpasu'n anferthol, gan ei fod yn cynnwys yr holl gyfraith yn ymwneud â'r materion a gedwir yn ôl y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer.

Mae'n cyfyngu ymhellach ar allu'r Cynulliad i ddeddfu, a hynny mewn modd annerbyniol yn ein barn ni, gan ei fod yn golygu na fydd deddfwriaeth y Cynulliad yn gallu diwygio'r gyfraith swmpus hwnnw oni bai ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd ategol ac nad yw'n cael mwy o effaith nag sy'n angenrheidiol i gyflawni diben deddfwriaeth y Cynulliad. At hyn, mae'n debygol mai'r Goruchaf Lys fydd yn gorfod penderfynu a yw rhywbeth yn 'angenrheidiol'.



Y gyfraith droseddol

Yn ogystal â'r uchod, fel y Pwyllgor blaenorol, rydym yn pryderu am y cyfyngiadau a osodir gan y darpariaethau ym Mil Cymru sy'n ymwneud â defnyddio'r gyfraith droseddol.

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor blaenorol mai rôl gyfreithlon deddfwrfa etholedig ddemocrataidd yw penderfynu sut i orfodi ei deddfwriaeth ac i wneud hynny mewn ffordd y mae'n ei ystyried yn briodol. Yn ein barn ni, mae'r darpariaethau ym Mil Cymru sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith droseddol yn gosod cyfyngiad annerbyniol ar allu'r Cynulliad i orfodi rhwymedigaethau a sicrhau hawliau drwy ei ddeddfwriaeth.

Mae'r enghraifft a ganlyn yn amlwg yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad ym maes y gyfraith droseddol.

Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant

Fel y nodwyd uchod, trafododd y Pwyllgor Femorandwm ar gyfer y Mesur Plismona a Throsedd yn ddiweddar. Yn ogystal ag ymestyn pwerau penodol yr heddlu, mae'r Memorandwm yn ceisio cydsyniad er mwyn i Senedd y DU ddeddfu i ddiwygio'r diffiniad o "gam-fanteisio'n rhywiol" yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003, fel bod y diffiniad o "recordio" delweddau anwedus o blentyn yn cynnwys "ffrydio" a "throsoglwyddo" delweddau anwedus o blentyn.

O dan y setliad presennol, mae'r mater hwn o fewn cymhwysedd y Cynulliad gan ei fod yn ymwneud â phwnc yn Atodlen 7 ac nid yw 'troseddau rhywiol' yn eithriad penodol. Fodd bynnag, o dan Fil Cymru, ni all deddfwriaeth y Cynulliad ddiwygio na chreu unrhyw droseddau rhywiol. Mae'r newidiadau i'r diffiniad yn y Mesur Plismona a Throsedd yn diwygio/creu trosedd rywiol, ac felly byddai hyn y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad. Gan hynny, ni fyddai angen Memorandwm.



Cydsyniad Gweinidogion y Goron (Llywodraeth y DU)

Roedd y Pwyllgor blaenorol yn pryderu am y gofynion yn y Bil drafft i Lywodraeth y DU gydsynio â deddfwriaeth y Cynulliad os ydynt yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron, adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau a gedwir yn ôl. Rydym yn cytuno bod y gofynion hyn yn niweidio'n sylweddol allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn ffordd gyson a chynhwysfawr, ac felly siomedig yw gweld eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil a gyflwynwyd.

Unwaith eto, rydym wedi ceisio dangos hyn drwy roi'r enghraifft ymarferol a ganlyn.

Dyletswyddau e-sigaréts ar awdurdodau a gedwir yn ôl sydd â gweithleoedd yng Nghymru

Nod gwreiddiol y Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru) oedd gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyffredinol mewn gweithleoedd ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaharddiad hwnnw, gosododd rai dyletswyddau penodol ar reolwyr gweithleoedd, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i reolwyr osod arwyddion yn y gweithle. Ar hyn o bryd, mae hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad, nid oes dim eithriadau perthnasol, ac nid oes angen cydsyniad Llywodraeth y DU.

Fodd bynnag, o dan Fil Cymru, byddai angen cysyniad Llywodraeth y DU cyn y gellid gosod dyletswyddau o'r fath ar awdurdodau a gedwir yn ôl sydd â gweithleoedd yng Nghymru (fel y DVLA, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gofrestrfa Tir). Y rheswm am hyn yw y byddai'r dyletswyddau hynny'n gyfystyr â gosod swyddogaethau ar awdurdodau a gedwir yn ôl.

Heb gydsyniad Llywodraeth y DU, ni fyddai'r ddyletswydd i gymryd camau i atal unigolion rhag defnyddio e-sigaréts na'r ddyletswydd i osod arwyddion yn gymwys i adeiladau awdurdodau a gadwyd yn ôl. Byddai hynny'n arwain at anghysondeb yn y modd y byddai'r dyletswyddau hynny'n cael eu cymhwyso ledled Cymru.



Sylwadau i gloi

Yn gyffredinol, rydym yn cytuno â'r Pwyllgor blaenorol na fydd y Bil yn darparu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru, sy'n debyg o barhau. Yn hytrach, rydym yn pryderu y bydd cymhwysedd y Cynulliad yn lleihau, ac y bydd modd o hyd i ddehongli'r Bil mewn nifer o wahanol ffyrdd ac, yn anorfod, y bydd angen troi'n fuan at y Goruchaf Lys, a gwneud hynny droeon o bosibl. O ran y pwynt olaf, rydym yn credu y byddai'n fuddiol ystyried y posibilrwydd o greu system i ymdrin ag unrhyw eithriadau i faterion a gadwyd yn ôl a gafodd eu hepgor o'r Bil drwy amryfusedd, os oes ewyllys da o'r ddwy ochr i wneud hynny. Gallai hyn helpu i leihau'r angen i droi at y Llys, yn sicr yn ystod y dyddiad cynnar, os daw'r Bil yn ddeddf. Er bod proses ddeddfwriaethol arbennig y gellir ei defnyddio i newid rhai agweddau ar y setliad datganoli, gall y broses honno fod yn feichus ac yn araf ac mae'n annhebygol y bydd yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r ansicrwydd a fydd yn codi o dan y setliad newydd.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon



Item 4.4 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2016

Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn derbyn y pwynt fel y'i codir. Mae'n ymwneud â gwall drafftio sy'n deipograffyddol yn unig, a byddwn yn cywiro'r gwall hwnnw cyn gynted â phosibl.



SL(5)009 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg Eitem 4.5 (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2016

Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn derbyn y pwyntiau fel y'u codir. Maent yn ymwneud â gwallau drafftio sy'n deipograffyddol yn unig, a byddwn yn cywiro'r gwallau hynny cyn gynted â phosibl.



Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon